Wylfa Site Director's Report

1 February 2018

Stuart Law
Site Director

Site Director's Summary (September 2017 – January 2018)

Wylfa site operations

The asbestos programme of work is making good progress with over 50 tonnes of asbestos containing material removed to date. Over 300 locations have been completed in Reactor 1 and Reactor 2 boiler economiser areas, pipebridges and the North and South envelopes.

North Dearator steam pipes before

North Dearator steam pipes after

As of 10 January, the Reactors were 55% defuelled overall with 27,678 spent fuel elements remaining in Reactor 1 and 17,280 in Reactor 2.

In 2017 16,604 spent fuel elements were removed from Reactor 1 and 8,568 from Reactor 2 equating to a total of 25,172. 130 flasks were despatched to Sellafield containing 19,082 fuel elements in total.

Ageing fuel route plant equipment repairs continue to cause operational delays as we repair aspects of the plant that we have never had to work on in the past.

Flask filling has been restricted since mid December due to issues with the Flask Handling Crane. A lot of maintenance work has subsequently been carried out and as of 17 January we are commissioning and returning the crane into service and plan to recommence flask filling w/c 22 January.


Flask handing crane

The current forecast is to complete the defuelling programme by November 2019 but we continue to work to accelerate this.

The Dry Store Cell 4 Intermediate Level Waste (ILW) Retrieval Project is also making good progress in cutting away skip tubes to access and remove those that contain ILW into a ductile cast iron container.

We were delighted to see Bico Engineering, Beaumaris win the Minister's SME Award at the NDA Supply Chain Event in November. This award was given to recognise the value, flexibility and innovation that Bico contributed to support the NDA's mission with the design, manufacture and installation of the bespoke recovery tools for the Dry Store Cell 4 project.

Pictured: Goronwy Jones, BICO MD (centre) with Ron Gorham and NDA Chief Executive Officer David Peattie

Maentwrog site operations – Andy McAteer

Rainfall between 28 September and 31 December 2017 was 682mm.
Electricity generation is currently ahead of target and availability has been 72%.
The site celebrates its 90th anniversary of renewable electricity production on 15 October 2018.

Environment, Health, Safety, Security and Quality (EHSS&Q)

Safety statistics 17 January 2018
Total recorded incident rate (TRIR): 0.21
Days away case rate (DACR): 0.21
No of days since a lost time accident: 180

First Aid Events

An individual sustained bruising from a traffic cone in September.

In December, an employee twisted their ankle on a concrete channel at Valley Railhead which aggravated an existing injury.

A historic back injury was aggravated when an individual moved a waste drum in December.

Monthly Target Zero safety campaigns have been delivered throughout the reporting period covering the following topics: Silica Dust, Security Awareness, Mental health Awareness and Slips,Trips and Falls.

We successfully demonstrated our emergency security arrangements to the ONR at an exercise held on 5 December.

15 Magnox employees attended Mental Health First Aid training on 2/3 October all of whom have signed up to be Mental Health First Aiders, seven of which are based at Wylfa.

As part of the Site's Safety Improvement Plan to improve Safety Leadership & Safety Culture, specialist external training providers 'Juice' hosted a one day training session for 220 front line employees in November. The training acted out the real life scenario of a fatal industrial accident and the impact that had on the family, work colleagues and the employer.

In December, Magnox introduced a database called 'Q-Pulse' which is used to track and manage events (positive/negative) and actions that are placed from events. This new database is designed to improve event reporting, trending and management of actions and has replaced the old reporting system. It is pleasing to know that our strong reporting culture has not been impacted by the introduction of Q-Pulse and has been well received by employees.

Visits

The NDA visited site on the 7 November 2017 to conduct a Defuelling Review and the Magnox Executive visited site on 2 November 2017 for an EHSS&Q Review.

Workforce

As of 31 December 2017, there were 300 employees and six Agency Supplied Workers on site (not including Security or Magnox Support Office staff based at Wylfa).

Members of staff supported an event to launch the Nuclear Institute's 'Women in Nuclear' Wales branch at Bangor University on 11 October. Wylfa's Head of Maintenance Ffion Morris gave a talk on decommissioning Magnox Reactors and sat on a panel titled 'Inspirational Women in Nuclear' which discussed the difficulties faced by women and celebrated the achievements of those in senior roles within the nuclear industry.

Six employees were awarded an NVQ Diploma in Radiological Protection Monitoring Level 2 by Coleg Menai in November.

A staff cake bake and Christmas raffle raised £1006.14 for the Anglesey Branch of the British Heart Foundation in December.

Wylfa Newydd

Horizon Nuclear Power's development area, as outlined in PAC 3, includes a requirement for land areas currently owned by the NDA. These include the Wylfa contractor's car park, the main cooling water outfall, and a strip of land between Wylfa and the 400 kV substation. In addition, there are areas of land now owned by Horizon Nuclear Power on which Wylfa equipment is situated and through which supply cables and/or pipework for Wylfa equipment pass.

A document is being developed, referred to as a 'Statement of Common Ground,' that will deal with these areas of concern and will be a key reference document for the Horizon Nuclear Power Design Consent Order document currently being formalised. Magnox and the NDA are working closely with Horizon Nuclear Power to address the technical, legal and regulatory requirements to allow the release of these land areas in line with Horizon Nuclear Power's schedule requirements, without compromising Magnox' ability to safely defuel and decommission the site in accordance with the current mission.

For more information and the latest news from Wylfa, visit:

https://magnoxsites.com
https://twitter.com/magnoxsites
https://www.linkedin.com/company/magnox
https://www.flickr.com/photos/magnoxsites

Adroddiad Cyfarwyddwr Safle Wylfa

1 Chwefror 2018

Stuart Law
Cyfarwyddwr y Safle

Crynodeb Cyfarwyddwr y Safle (Medi 2017 – Ionawr 2018)

Gwaith ar safle Wylfa

Mae'r rhaglen waith asbestos yn gwneud cynnydd da, a hyd yma mae dros 50 o dunelli o ddeunyddiau sy'n cynnwys asbestos wedi cael eu symud. Mae mwy na 300 o leoliadau wedi cael eu cwblhau yn ardaloedd arbed Adweithydd 1 ac Adweithydd 2, pontydd pibelli a'r amlenni De a Gogledd.

Pibelli stêm dadawyrydd y gogledd -

Pibelli stêm dadawyrydd y gogledd -

Ar 10 Ionawr, roedd 55% yn gyffredinol o'r tanwydd wedi'i symud o'r Adweithyddion, gyda 27.678 o elfennau tanwydd sydd wedi'u defnyddio ar ôl yn Adweithydd 1 ac 17,280 yn Adweithydd 2.

Yn 2017, symudwyd 16,604 o elfennau tanwydd wedi'u defnyddio o Adweithydd 1, a symudwyd 8,568 o Adweithydd, sy'n cyfateb i gyfanswm o 25,172. Anfonwyd 130 o fflasgiau i Sellafield, gyda chyfanswm o 19,082 o elfennau tanwydd.

Mae gwaith trwsio ar gyfarpar gwaith ffordd danwydd yn heneiddio ac yn parhau i achosi oedi wrth i ni drwsio agweddau ar y gwaith nad ydyn ni erioed wedi gorfod gweithio arnyn nhw o'r blaen.

Cyfyngwyd ar y gwaith llenwi fflasgiau ers mis Rhagfyr, a hynny oherwydd problemau gyda'r Craen Trin Fflasgiau. Mae llawer o waith cynnal a chadw wedi cael ei wneud ers hynny. Ac ers 17 Ionawr rydyn ni'n comisiynu ac yn dod â'r craen yn ôl i wasanaeth ac yn bwriadu ailddechrau llenwi fflasgiau yn yr wythnos yn dechrau 22 Ionawr.

Craen trin fflasgiau

Ar hyn o bryd rhagwelir cwblhau'r rhaglen symud tanwydd erbyn Tachwedd 2019, ond rydyn ni'n parhau i weithio i brysuro hyn.
Mae'r Prosiect Adfer Gwastraff Lefel Ganolraddol Cell Storio Sych 4 hefyd yn gwneud cynnydd da wrth dorri tiwbiau sgipiau a symud y rhai sy'n cynnwys Gwastraff Lefel Ganolraddol i gynhwysydd haearn bwrw hydwyth.

Roedd yn bleser mawr i ni weld cwmni peirianneg Bico o Fiwmares yn ennill Gwobr BBaCh y Gweinidog yn Nigwyddiad y Gadwyn Gyflenwi a drefnwyd gan yr NDA ym mis Tachwedd. Rhoddwyd y wobr i gydnabod y gwerth, yr hyblygrwydd a'r dyfeisgarwch y mae Bico wedi'u cyfrannu i gefnogi gwaith yr NDA yn dylunio, cynhyrchu a gosod offer adfer pwrpasol ar gyfer prosiect Cell Storio Sych 4.

Yn y llun: Goronwy Jones, Rheolwr-Gyfarwyddwr BICO (canol) efo Ron Gorham a Phrif Swyddog Gweithredol yr NDA David Peattie

Gweithredu ar safle Maentwrog – Andy McAteer

Y glawiad rhwng 28 Medi a 31 Rhagfyr 2017 oedd 682mm.
Mae lefel cynhyrchu trydan yn well na'r targed ar hyn o bryd, a 72% oedd yr argaeledd.
Ar 15 Hydref 2018, mae'r safle'n dathlu 90 mlynedd o gynhyrchu ynni adnewyddadwy.

Yr Amgylchedd, Iechyd, Diogelwch ac Ansawdd (EHSS&Q)

Ystadegau diogelwch 17 Ionawr 2018
Cyfradd cyfanswm y digwyddiadau a gofnodwyd (TRIR): 0.21
Cyfradd achosion diwrnodau i ffwrdd (DACR): 0.21
Nifer y diwrnodau ers damwain colli amser: 180

Digwyddiadau Cymorth Cyntaf

Cafodd unigolyn ei gleisio gan gôn traffig ym mis Medi.

Ym mis Rhagfyr, fe wnaeth un gweithiwr droi ei droed ar sianel goncrid ym Mhen Pellaf y Rheilffordd yn y Fali, gan waethygu anaf oedd ganddo eisoes.

Gwaethygwyd anaf hanesyddol i gefn unigolyn pan symudodd drwm gwastraff ym mis Rhagfyr.

Cyflwynwyd Ymgyrchoedd Diogelwch Targed Sero misol drwy gydol y cyfnod adrodd, ac roeddent yn cwmpasu'r meysydd canlynol: Llwch Silica, Ymwybyddiaeth o Ddiogeledd, Ymwybyddiaeth o Iechyd Meddwl, a Llithro, Baglu a Syrthio.

Llwyddon ni i ddangos ein trefniadau diogeledd mewn argyfwng i'r ONR mewn ymarferiad ar 5 Rhagfyr.

Cafodd 15 o weithwyr Magnox hyfforddiant ar Gymorth Cyntaf Iechyd Meddwl ar 2/3 Hydref. Mae pob un ohonynt wedi rhoi eu henwau i roi Cymorth Cyntaf Iechyd Meddwl, ac mae saith ohonynt yn gweithio yn Wylfa.

Fel rhan o Gynllun Gwella Diogelwch y Safle er mwyn gwella Arweiniad Diogelwch a Diwylliant Diogelwch, fe wnaeth 'Juice', y darparwyr hyfforddiant allanol, gynnal diwrnod o hyfforddiant ar gyfer 220 o weithwyr rheng flaen ym mis Tachwedd. Roedd yr hyfforddiant yn creu senario o ddamwain ddiwydiannol farwol, a'r effaith roedd hynny'n ei chael ar y teulu, cydweithwyr a'r cyflogwr.

Ym mis Rhagfyr, fe wnaeth Magnox gyflwyno cronfa ddata o'r enw 'Q-Pulse' i olrhain a rheoli digwyddiadau (cadarnhaol/negyddol) a chamau gweithredu a drefnir ar ôl digwyddiadau. Nod y gronfa ddata newydd yw gwella'r gwaith adrodd ynghylch digwyddiadau, tueddiadau a rheoli camau gweithredu, ac mae wedi cymryd lle'r hen system adrodd. Mae'n dda gwybod nad yw dyfodiad O-Pulse wedi amharu ar ein diwylliant cryf o adrodd, a bod hwnnw wedi cael derbyniad da ymysg y gweithwyr.

Ymweliadau

Ymwelodd yr NDA â'r safle ar 7 Tachwedd 2017 i gynnal Adolygiad Symud Tanwydd, ac aeth Gweithrediaeth Magnox i'r safle ar 2 Tachwedd 2017 ar gyfer Adolygiad EHSS&Q.

Y Gweithlu

Ar 31 Rhagfyr roedd 300 o weithwyr a chwech o Weithwyr a Gyflenwyd gan Asiantaeth ar y safle (heb gynnwys gweithwyr Diogelwch na staff Swyddfa Cymorth Magnox sydd wedi'u lleoli yn Wylfa).

Bu aelodau o'r staff yn cefnogi digwyddiad i lansio'r gangen o 'Ferched ym maes Niwclear' y Sefydliad Niwclear ym Mhrifysgol Bangor ar 11 Hydref. Rhoddodd Pennaeth Cynnal a Chadw Magnox, Ffion Morris, sgwrs ar ddatgomisiynu Adweithyddion Magnox a safodd ar banel o'r enw 'Merched sy'n Ysbrydoli ym maes Niwclear' i drafod yr anawsterau sy'n wynebu merched ac i ddathlu llwyddiant y rhai sydd mewn swyddi uchel yn y diwydiant.

Cafodd chwe gweithiwr Ddiploma NVQ mewn Monitro Diogelu Radiolegol Lefel 2 gan Goleg Menai ym mis Tachwedd.

Bu'r staff yn pobi teisennau, a chododd y raffl Nadolig £1006.14 at Gangen Ynys Môn o Sefydliad Prydeinig y Galon ym mis Rhagfyr.

Wylfa Newydd

Mae ardal ddatblygu Pŵer Niwclear Horizon, fel yr amlinellir yn PAC 3, yn cynnwys gofyniad i gael tir sy'n berchen i'r NDA ar hyn o bryd. Mae'r rhain yn cynnwys maes parcio contractwyr Wylfa, y prif strwythur gollwng y dŵr oeri, a darn o dri rhwng Wylfa a'r is-orsaf 400 kV. Hefyd, mae cyfarpar yn perthyn i Wylfa, a cheblau cyflenwi a/neu bibellau ar gyfer cyfarpar Wylfa yn mynd drwy darnau o dir sy'n eiddo i Bŵer Niwclear Horizon.

Mae dogfen wrthi'n cael ei datblygu, o'r enw 'Datganiad Tir Cyffredin', a bydd yn delio â'r meysydd pryder yma. Bydd yn ddogfen gyfeirio allweddol ar gyfer y ddogfen Gorchymyn Cydsyniad Dylunio sydd wrthi'n cael ei ffurfioli. Mae Magnox a'r NDA yn gweithio'n agos â Phŵer Niwclear Horizon i fynd i'r afael â'r gofynion technegol, cyfreithiol a rheoleiddiol er mwyn gallu rhyddhau'r darnau o dir yn unol â gofynion amserlen Pŵer Niwclear Horizon, a hynny heb beryglu gallu Magnox i symud tanwydd yn ddiogel a datgomisiynu'r safle yn unol â'r gorchwyl presennol.

I gael rhagor o wybodaeth a'r newyddion diweddaraf o Wylfa, ewch i:

https://magnoxsites.com
https://twitter.com/magnoxsites
https://www.linkedin.com/company/magnox
https://www.flickr.com/photos/magnoxsites